



Bu disgyblion Ysgol Dyffryn Conwy yn brysur tymor diwethaf yn partaoi at berfformiadau o'r sioe gerdd adnabyddus "Hairspray." Cafodd y sioe ei pherfformio yn ddwyieithog gyda chast o ddisgyblion blwyddyn 7 i 13 yn cymryd rhan, heb anghofio ambell i athro oedd hefyd yn rhan o'r sioe. Cafodd y sioe ei pherfformio ar ddydd Llun y 17fed o Ragfyr i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr ardal ac yna perfformiadau egniol a phroffesiynol i'r cyhoedd o nos Fawrth yr 18fed i nos Iau y 20fed o Ragfyr. Roedd neuadd yr ysgol o dan ei sang bob noson. Hoffai'r athrawon a fu yn hyfforddi a'r disgyblion ddiolch am yr holl genfogaeth. Diolch o galon i'r disgyblion am eu gwaith caled.

Dyma oedd gan rhai o ddisgyblion yr ysgol a oedd yn rhan o'r cast i'w ddweud ynglyn a'r sioe.

***"Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn y Sioe gerdd 'Hairspray' yn yr ysgol. Roeddwn yn rhan o'r cwrs. Cafodd pawb amser gwych, roeddwn wedi mwynhau perfformio yn enwedig y gan olaf."***

Cari Marged Jones, Blwyddyn 7

***"Rydw i wedi cael hwyl a sbri yn ymarfer a pherfformio y sioe gerdd 'Hairspray'. Roedd yn fantastig. Roeddwn i yn dawnsio a chanu fel rhan o'r corws."***

Lea Ruth Thomas, Blwyddyn 7

***"Mi ges i hwyl yn perfformio y sioe 'Hairspray'. Roedd o'n brofiad ardderchog a bythgofiadwy. Rwyf yn edrych ymlaen i'r sioe nesaf."***

Cora Roberts, Blwyddyn 8

***"Roedd hi braf perfformio fel rhan o'r sioe 'Hairspray.' Mi oeddwn i yn rhan o'r corws ac mi wnes i fwynhau y dawnsio, action a'r canu."***

Beca Williams, Blwyddyn 8

***"Hairspray has been a brilliant experience and I have loved every minute. I feel my confidence has grown, and I have made lots of new friends. The audience really enjoyed it and the whole cast got a huge buzz after each performance!"***

Morgan Evans, Year 12

***“Bu perfformio’r sioe ‘Hairspray’ yn llond berfa o hwyl! Cefais brofiad newydd sbon i mi a chyfarfod pobl newydd ar y daith gan ddysgu peth neu ddau am actio chanu. Diolch mawr i bawb fu’n rhan o’i gwneud hi’n sioe mor llwyddiannus, a diolch mwy i Miss Japheth, Miss Ellis a Mr Roberts am eu hymroddiad enfawr dros y misoedd diwethaf!”***

Rhodri Siôn, Blwyddyn 13













# hairspray

Ysgol Dyffryn Conwy 2012

